## Gwasanaethau Niwroddatblygiadol

Nodwyd gwasanaethau niwroddatblyiadol plant fel maes rhaglen yn y rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy, y gwasanaeth gwella ansawdd cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nod y rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy yw cefnogi'r GIG i wella canlyniadau gofal iechyd i gleifion a darparu gofal iechyd diogel o ansawdd uchel i bobl yng Nghymru.

### Llwybr asesu a diagnosis Niwroddatblygiadol ar gyfer Cymru gyfan

Mae'r llwybr asesu a diagnosis Niwroddatblygiadol ar gyfer Cymru gyfan wedi'i greu gyda'r grŵp llywio cenedlaethol niwroddatblygiadol, teuluoedd, sefydliadau statudol a thrydydd sector. Mae'r safonau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- lleihau'r amser o atgyfeirio'r cleient i asesiad diagnostig,
- asesiad sy'n canolbwyntio ar y plentyn.
- trafodaeth brydlon ac amlddisgyblaethol i'r rheiny sydd ynghlwm â'r asesiad,
- gwella cyfathrebu ac
- adborth o'r canlyniad, gyda chyfarfod dilynol â'r teulu - a'r plentyn lle bo hynny'n briodol - i gefnogi darpariaeth y cynllun gweithredu.

- *Safon 1:* Mae pwynt cyswllt unigol ar gyfer asesiadau diagnostig pob anhwylder niwroddatblygiadol.
- *Safon 2:* Gwneir y penderfyniad ynghylch a dderbynnir atgyfeiriad ai peidio ar sail ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd (fel yr amlinellir yng nghanllawiau NICE). Os bydd digon o wybodaeth i gefnogi'r pryderon, ni ddylai mynediad fod yn amodol ar atgyfeirwyr cymeradwy, defnyddio holiaduron sgrinio neu fanylebau eraill.
- *Safon 3:* Pan na dderbynnir atgyfeiriadau, rhoddir y rheswm am hyn i'r atgyfeiriwr, ynghyd â chyngor ar sut i wella'r atgyfeiriad.
- *Safon 4:* Mae asesiadau'n cael eu cynllunio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei chasglu i allu creu proffil o anghenion y plentyn (fel yr amlinellir yn arweiniad NICE), a sicrhau dull darbodus, hyblyg o ddefnyddio adnoddau.
- *Safon 5:* Ceir trafodaeth amlddisgyblaethol amserol gyda phawb sydd ynghlwm â'r broses asesu, sy'n arwain at benderfyniad am ganlyniad yr asesiad, proffil o gryfderau ac anawsterau'r plentyn a chytuno ar y dyfodol. Gellir pennu sut gweithredir y broses hon yn lleol.
- *Safon 6: Bydd* gweithiwr proffesiynol sydd wedi bod ynghlwm â'r broses asesu yn rhoi gwybod i'r teulu (a'r plentyn, os yw hynny'n briodol) beth yw canlyniad yr asesiad. Yna mae'n cael ei gyfleu'n ysgrifenedig ac, os rhoddir cydsyniad i wneud hynny, dylid ei rannu â'r gweithwyr proffesiynol sy'n cynorthwyo'r plentyn. Ar gyfer plant sydd wedi cael diagnosis, dylid rhoi cyngor ar y ffordd orau o fodloni anghenion y plentyn.
- *Safon 7:* Ar ôl asesu, dylid trafod y camau nesaf gyda'r teulu, ac, os yw'n briodol, gyda'r plentyn.
- *Safon 8:* Dylai'r ymyriadau a argymhellir ac a gynigir gan wasanaethau niwroddatblygiadol fod yn seiliedig ar y ddisgyblaeth orau.

## Mesurau canlyniadau cytunedig

Mae mesurau canlyniadau ar gyfer y gwasanaeth niwroddatblygiadol wedi'u datblygu a'u cytuno, fe'u darperir gan y Tîm 100 o Fywydau a Mwy, gan ganolbwyntio ar:

- cydymffurfiad â'r safonau
- profiad y plentyn neu unigolyn ifanc a'u teulu o'r asesiad a'r diagnosis.

## Cymuned Ymarfer Niwroddatblygiadol

Yn ogystal â hynny, mae Cymuned Ymarfer, a drefnir gan y Tîm 1000 o Fywydau a Mwy, sy'n darparu mynediad i glinigwyr at waith ymchwil a gwybodaeth gyfredol.

## Rhagor o wybodaeth ynghylch y Gwasanaethau Niwroddatblygiadol

Am ragor o wybodaeth, ymwelwch â: http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/neurodevelopmental-services

## Gwasanaethau Niwroddatblygiadol (ND) yng Nghymru

| Bwrdd Iechyd | Dolenni Rhyngrwyd | Manylion cyswllt |
|---|---|---|
| BIP Caerdydd a'r Fro | http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/children-young-people-neurodevelopment | Gwasanaeth Niwroddatbygiadol<br>Canolfan y Plant, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Treganna, Caerdydd CF11 9XB<br>Ffôn: 02920 536611 |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | https://cwmtaf.wales/services/child-adolescent-mental-health-services/neurodevelopmental-service/ | Gwasanaeth Niwroddatbygiadol<br>Swyddfa Gweinyddu Llawr 1af, Keir Hardie Health Park, Aberdare Road, Merthyr Tydfil CF48 1BZ<br>Ffôn: 01685 351026 |
| BIP Aneurin Bevan | http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/98384# | CARIAD Gwasanaeth Niwroddatbygiadol Trydyddol<br>Ysbyty St Cadog, Ffordd y Lodj, Caerllion NP18 3XQ<br>Ffôn: 01633 431784 |
| BIA Powys | https://en.powys.gov.uk/article/1660/Neurodevelopmental-Assessment-for-children-with-Autism-ASD-and-Attention-Deficit-Hyperactivity-Disorder-ADHD | Gwasanaeth Niwroddatbygiadol,<br>Neuadd Brycheiniog, Cambrian Way, Aberhonddu, Powys LD3 7HR<br>Ffôn: 01874 612172 |
| BIP Betsi Cadwaladr (Gorllewin) | | Bodfan Bach<br>Ysbyty Eryri Hospital Site, Lon Parc, Caernarfon, Gwynedd LL55 2YE<br>Ffôn: 03000 851641 |
| BIP Betsi Cadwaladr (Canolbarth) | | Tîm Niwroddatbygiadol,<br>Canolfan Hamdden Bae Colwyn, Heol Eirias, Bae Colwyn LL29 7SP<br>Ffôn: 03000 850031 |
| BIP Betsi Cadwaladr (Dwyrain) | | Canolfan Plant Sir y Fflint<br>Catherine Gladstone House, Hawarden Way, Mancot CH5 2EP<br>Llinell cymorth pob dydd Mercher 8.30yb-3.30yh<br>Ffôn: 01978 726554 |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gweinyddwr Niwroddatblygiadol ar 01978 726031 (Wrecsam) 03000 859112 (Sir y Flint) |
| BIP Bae Abertawe | https://sbuhb.nhs.wales/hospitals/a-z-hospital-services/children-young-people/hospital-and-community-services/community-services-for-children/ndd-and-therapies/help-with-autism-adhd/ | Gwasanaeth Niwroddatblygiadol<br>Bloc D, Neath Ysbyty Port Talbot, Baglan Way, Port Talbot SA12 7BX<br>Ffôn: 01639 862459 |
| BIP Hywel Dda | | Gwasanaeth Niwroddatblygiadol<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Adeilad 1, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3HB<br>Ffon: 01267 283070 |

www.1000livesplus.wales.nhs.uk/neurodevelopmental-services

**Diweddarwyd ddiwethaf: Medi 2020**